

## Blaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Rhagfyr 2019 - ATODIAD 1 - Astudiaethau Achos

**ASTUDIAETH ACHOS 1: GWEITHRED 12969.** Bydd Adran yr Amgylchedd yn llunio dull integredig a hirdymor o gyflawni prosiectau ar Wastadeddau Llanelli. Adnabod a gweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid e.e. Network Rail, Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir, Ymddiriedolaeth Natur, cymunedau lleol.



Ers 2016 mae **Cyngor Sir Caerfyrddin**, mewn partneriaeth ag **Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir** a **Chyfoeth Naturiol Cymru**, wedi creu nodweddion gwlyptir ar dir CSC nad yw wedi'i ddyrannu nac yn cael ei ddefnyddio ger gwarchodfa Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir. Mae'r nodweddion - pyllau, pantiau ac yn 2018 roedd pwll/ffos droellog 400+m wedi cael eu creu, yn bennaf ar gyfer bywyd gwyllt, gan ganolbwyntio'n benodol ar llygod pengrwn. Roedd y corstir pori arfordirol hwn a fu unwaith yn agored wedi cael ei adael ar ôl yn dilyn gwaith adeiladu ffordd gyswllt ac roedd prysgwydd yn tyfu yno. Gwyddys bod llygod pengrwn yn defnyddio'r cynefinoedd. Codwyd arwyddion bwydo newydd eleni ger y ffos newydd ac mae'r gwaith clirio llystyfiant wedi darparu cynefin gwlyptir gwerthfawr ychwanegol i amrywiaeth o fywyd gwyllt. Defnyddiwyd y deunydd a gloddiwyd i greu byndiau newydd wrth ochr y pyllau/ffos lle gall y llygod pengrwn greu tyrchfeydd. Dylai wella cysylltedd cynefinoedd lleol a helpu o ran storio a lliniaru llifogydd lleol, sy'n broblem yn lleol.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda chydweithwyr yn y gwasanaeth Priffyrdd yn lleol i roi sylw i wraidd y problemau llifogydd lleol a nodi ffosydd/cwlferi i'w clirio sydd wedi helpu i leihau llifogydd a gwella'r cynefin ar gyfer llygod pengrwn. Rydym hefyd yn ceisio gweithio drwy'r adran gynllunio i sicrhau cyllid rheoli ar gyfer ardal cynefin cydbwysu gwlyptir a grëwyd o ganlyniad i gais cynllunio ym Machynys. Mae hyn yn ymestyn arwynebedd y cynefin gwlyptir sy'n cael ei reoli gan CSC neu bartneriaid yn ardal Llanelli fel bod posibilrwydd bod ??? hectar o'r tir sy'n cael ei reoli yn cynnwys cynefin llygod pengrwn.

**Gwaith pellach sydd ei angen:** parhau i ymgysylltu â Network Rail i geisio sicrhau bod y cwlferi o dan y rheilffordd yn cael eu clirio.

### **Amcanion NRAP a gyflawnwyd:**

- Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli.
- Cryfhau cydnerthedd ein hamgylchedd naturiol trwy adfer cynefinoedd wedi dirywio a chreu cynefinoedd newydd.

**ASTUDIAETH ACHOS 2: GWEITHRED 13048.** Paratoi canllawiau ar ddulliau rheoli tir sy'n gweddu i'r amgylchedd ar gyfer y Cynghorau Tref a Chymuned mwy a gynhwysir yn Neddf yr Amgylchedd o ran torri porfa a rheolaeth tir bioamrywiaeth y maent yn gyfrifol amdano.

## Can your green space be better - for people and wildlife?

**Did you know that:**

- Good quality green space can affect how people feel - it can increase physical recreation and enable children to interact with nature.\*
- A study shows that everyday contact with nature is beneficial for healthy ageing in older people.\*
- By taking action to benefit wildlife - pollinators or hedgehogs, birds or bats, you can also enhance areas so that they provide higher quality green space for local people.

• As Town and Community Councils you have been managing your own land for years and recently more parks and sports grounds have been leased to many of you from the County Council.

• As well as managing these sites as important sites for public recreation, there are opportunities within most parks to manage suitable areas for wildlife as well.

• For Town and Community Councils the Welsh Government's Environment (Wales) Act 2016 places a duty upon them to 'seek to maintain and enhance biodiversity' when they carry out their functions, including when managing land.

• Managing areas for wildlife can provide opportunities for community groups, volunteers and schools to become involved, contributing to their health and well-being.

• The healthier Carmarthenshire's natural environment is, with a variety of habitats and species, the more resilient it will become. The parks and public open space you manage can contribute to this.

• Changing the management of your green space does not need to cost extra money, in fact in some cases it may be possible to make a saving. Read on for some suggestions as to how you can do this.

**Hedgerows & trees**



*Hedgerows are vitally important as they provide food and shelter to many species, including those that need particular help such as dormice and bank voles which use hedges to move around. They are also important habitats for nesting birds.*

- Can you lay the hedge to improve the structure?
- Is there an opportunity to plant/restore a hedgerow - especially if it connects existing habitats?
- Manage your hedgerows in the winter months when the woody growth is dormant. All work during the bird nesting season (March to August) should be avoided.
- Allowing your hedges to grow for 2-3 years before cutting will provide a plentiful supply of berries for birds over the winter. Berries usually form on 2-year old wood, so aim to cut less than half your hedges each year.
- Can you plant more trees? If grassy areas are not regularly used then why not try something else - it could save money in the long run.
- If you have to fell a tree, replace it with two or a small group!

\*<https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2016/11/09/green-space-mental-well-being-and-sustainable-communities/>  
\*\*<http://fro.sussex.ac.uk/53372/>

**Grassland**



*Research shows that a abundance of both flowers and flower-visiting insects increases significantly with reduced mowing, helping pollinators.\*\* Why not experiment and vary the mowing regime in different areas and see what works best for pollinators - and people!*

- The easiest thing you can do is identify and enhance existing areas that have the capacity to provide a food source and shelter for pollinators. This is often the most cost-effective way as well.
- Can you cut some areas less often and cut higher to allow more plants to flower? Grass will grow at a different rate depending on the weather during the growing season but why not delay your first cut until mid-April and then mow to every 5-8 weeks and see what happens? Use signs to explain why you are doing this. Setting the mower blade at a minimum of 50-60mm should allow low-growing species like daisies, clover and selfheal to flower. They can keep their heads below the mower or have time to spring up and flower again.
- Can you collect up the mowings? This will help encourage more flowering plants in the grass. If your mowing machine cannot collect then for smaller areas can local volunteers help rake it up and create a habitat pile or compost heap?

• Are there some areas of grassland where you can let the grass grow long and manage like a hay meadow? Here you would ideally cut the grass in late summer and remove the cut material, helping to make the grassland more flowery. Are there local contractors who could undertake this work or perhaps a local farmer could cut and bale it for the use of the hay?

• In some areas you might wish to sow seed mixes that benefit pollinators. Choose these areas carefully. It might be better to manage the habitat that is there already, to encourage the flowers that are already within it. Also choose your seed mix carefully - ensure that the seed or plants that you are introducing are native and preferably from a local source.




Cafodd canllawiau dwyieithog eu paratoi a'u hanfon at Gynghorau Tref a Chymuned yn Sir Gaerfyrddin i roi gwybod iddynt am eu dyletswydd o dan Ddeddf yr Amgylchedd a chanllawiau ar sut y gallent ystyried hyn fel rhan o'r broses o reoli mannau agored cyhoeddus. Cyfarfu'r Swyddog Bioamrywiaeth â rhai o'r cynghorau mwy sydd â darnau sylweddol o dir i'w rheoli i drafod rheoli bioamrywiaeth: Cydweli, Tref Caerfyrddin, Tref Llanelli a Thref Rhydaman. Mae Cyngor Tref Rhydaman yn gweithio gyda'r swyddog bioamrywiaeth i baratoi polisi bioamrywiaeth ar gyfer y cyngor tref. Gellid defnyddio hwn fel templed ar gyfer cynghorau tref a chymuned eraill.

Hefyd, cynhaliodd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, mewn partneriaeth â CSC, sesiwn ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned ac eraill ar sut i reoli llecynnau tir glas ar gyfer pobl a bywyd gwylt ar 27 Mehefin 2019 yn y Gerddi. Roedd cynrychiolwyr o Gynghorau Tref a Chymuned Castell-nedd Port Talbot hefyd yn bresennol. Daeth dros 50 o bobl i'r gweithdy i gael gwybod sut y gall Cynghorau Tref a Chymuned reoli tir y maent yn gyfrifol amdano mewn ffyrdd

- y caiff eu mwynhau gan y cyhoedd,
- sy'n hyrwyddo bioamrywiaeth a chadwraeth natur,
- sy'n fwy cynaliadwy yn y tymor hir,
- sy'n aml yn gallu arbed arian.

Gwelwyd enghreifftiau o'r dulliau hyn yn y Gerddi a thrwy gyflwyniadau (gan gynnwys prosiect Cyngor Sir Fynwy, *Natur Wylt*, a phrosiect Cyngor Sir Burnley, *Go to the Park*) gwelwyd tystiolaeth o'r manteision.

**Gwaith pellach sydd ei angen:** Mynd ar drywydd y mater i weld sut/os yw arferion wedi newid o fewn Cynghorau Tref a Chymuned.

### Amcanion NRAP a gyflawnwyd:

- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel

**ASTUDIAETH ACHOS 3 CAM GWEITHREDU 12977.** Er mwyn dangos fod CSC yn gwreiddio ei ddyletswyddau A6 yn ei ffyrdd o weithio o ran datblygu neu ail-ddatblygu safleoedd sy'n eiddo i / a reolir gan CSC, bydd Dylunio Eiddo yn monitro camau a gymerir i gryfhau bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ecolegol yn nodweddion briffiau ar gyfer gwaith arolygu ecolegol ac mewn briffiau dylunio prosiectau, ynghyd â mewn prosiectau y rhoddir caniatâd cynllunio ar eu cyfer ac mewn prosiectau a gyflawnir ar y safle.

Pan mae ecolegwyr CSC, yn y cam cysyniadol, yn adnabod cyfleoedd i gryfhau bioamrywiaeth a gwella cysylltedd ecolegol yn rhan o brosiect CSC ar safle penodol, y targed yw sicrhau bod 100% o gynlluniau o'r fath yn cynnig y buddion hyn.



Fel rhan o'n proses ddylunio a gwaith comisiynu, rydym yn mynnu bod contractwyr ac ymgynghorwyr yn comisiynu arolygon ecolegol yn ôl y galw, gan gynnwys ymgynghori â thîm ecoleg y Cyngor ar fioamrywiaeth a chydnerthedd ecolegol. Mae penodi Ecolegydd penodol (a ddechreuodd ym mis Ebrill 2019) bellach yn sicrhau'r mewnbwn ecolegol angenrheidiol a bod cynlluniau CSC yn cael eu monitro. Mae'r swydd yn cynnwys gweithio gydag adrannau'r Cyngor sy'n datblygu ac yn gweithredu polisiau, cynlluniau a phrosiectau, gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei Ddyletswydd Bioamrywiaeth o dan Adran 6 fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, mewn modd cost-effeithiol, ac yn bodloni'r holl ofynion eraill o ran polisiau a bywyd gwyllt.

Mae'r ecolegydd yn rhan o'r adain peirianwyr, gan weithio ochr yn ochr gyda nhw bob dydd a hefyd ar safle gyda'r contractwyr sy'n cyflawni'r prosiectau. Mae hyn wedi peri manteision amlwg o ran cyflawni Cam 1 Ffordd Gyswllt Cross Hands a'r gwaith o gynllunio a darparu'r ail gam.

Mae amrywiaeth y gwaith y mae'r ecolegydd eisoes wedi'i wneud yn cynnwys darparu cyngor ecolegol:

- ar gyfer cynlluniau y tu allan i'r adran beirianeg gan gynnwys meysydd parcio bach, llwybr troed a chynlluniau mawr megis Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands. Mae hyn yn cynnwys darparu a sicrhau trwyddedau Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop CNC a chynhyrchu gwaith ecolegol;
- i'r tîm Eiddo – un neu ddau gynllun hyd yn hyn yn rhoi cyngor i ymgynghorwyr ecolegol a chyngor mewnlol ar ystlumod;
- i'r tîm Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir ar ystyriaeth ecolegol ar gyfer eu cynlluniau, yr angen am asesiadau priodol;
- ar reoli safleoedd ac arolygon ecolegol i lywio'r gwaith rheoli hwnnw.

**Gwaith pellach sydd ei angen:** Mae eisoes yn amlwg faint y mae'r swydd hon wedi helpu i wreiddio dyletswydd A6 yng ngwaith y Cyngor a helpu i gefnogi a rhoi gwybod i swyddogion am y gofynion a'r dyletswyddau.

**Amcanion NRAP a gyflawnwyd:**

- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel
- Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli.

**ASTUDIAETH ACHOS 4: GWEITHREDOEDD 13043/46/52/54/70 - RHEOLI GLASWELTIROEDD.**

- Byddwn yn adolygu trefniadau torri porfa a wneir gan y tîm Cynnal a Chadw Tiroedd i edrych ar arbedion a buddion bioamrywiaeth.
- Ystyried newidiadau i drefniadau torri porfa ar dir o gwmpas tai gwarchod/cartrefi henoed ac ati, yn rhan o adolygiad o'r contract gyda'r Adran Dai i wneud y gwaith hwn
- Parc Howard. Gweithio gyda'r grŵp cyfeillion/swyddog tirwedd/swyddog bioamrywiaeth i edrych ar reolaeth y parc ac adolygu'r trefniadau ar gyfer bioamrywiaeth a gwella garddwriaeth yn gyffredinol yno
- Llunio Strategaeth Pryfed Peillio ar gyfer y Cyngor er mwyn cyfrannu at gamau cadarnhaol ar gyfer pryfed peillio ymhob agwedd ar waith y Cyngor.
- Torri Ymylon Ffyrdd – Parhau i weithredu'r polisi, cyflwyno sgwrs flynyddol ar y pecyn gwaith a gwneud darpariaeth ar gyfer ymylon ffyrdd sy'n cael toriad hwyr



Mae'r Cyngor yn rheoli glaswelltir mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, e.e. lleiniau, manau amwynder o fewn aneddiadau, glaswelltir o amgylch adeiladau cyhoeddus a pharciau a manau agored. Caiff hyn ei gyflawni gan nifer o isadrannau gwahanol y Cyngor, sy'n rhoi cyfarwyddyd i staff CSC neu gontractwyr allanol.

Mae gwaith torri porfa yn cynnwys ystyried amrywiaeth o amcanion sydd weithiau'n groes i'w gilydd ac nid yw cydweithio ar drefniadau torri porfa yn fater syml bob tro - anaml y mae amod rheoli safonol a gallai argymhellion o ran amodau tywydd amrywiol newid o flwyddyn i flwyddyn. Mae nifer o gyfyngiadau: mathau o gynefinoedd glaswelltir, diffyg adnoddau (swyddogion ar lawr gwlad, offer), araf ran newid hen arferion a'r mater o 'daclusrwydd' sy'n cael ei ffafrio gan rai cynghorwyr, y cyhoedd a swyddogion.

Rydym wedi ymdrechu i weithio gyda gwasanaethau Priffyrdd, Cynnal a Chadw Tiroedd, Eiddo a Hamdden i ystyried y gwaith o reoli ein hardaloedd glaswelltir. Rydym bellach wedi parhau â'r trafodaethau hyn â'r Cynghorau Tref a Chymuned (ac wedi anfon canllawiau atynt) sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau rheoli ar gyfer nifer gynyddol o barciau/mannau agored cyhoeddus. Mae'r gwaith hwn yn parhau ac yn adlewyrchu'r un materion uchod.

Mae'r Adain Gadwraeth wedi cyfrannu at y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ynghylch *Adolygiad o'r gwasanaeth cynnal a chadw perthi ac ymylon priffyrdd*, a oedd yn rhoi llawer o ystyriaeth i fioamrywiaeth a chynhwyswyd yr argymhelliad canlynol:

'Y dylai Cyfarwyddiaeth Amgylchedd y Cyngor Sir barhau'n gyffredinol â'i darpariaeth bresennol ar gyfer cynnal a chadw ymylon priffyrdd ond y dylai ystyried defnyddio mwy o hyblygrwydd er mwyn:  
a) hwyluso mwy o welliannau amgylcheddol ar gyfer bioamrywiaeth, megis toriadau hwyr neu bob dwy flynedd, torri llecynnau dethol neu drefniadau rheoli priodol eraill'.

Mae ein hymylon priffyrdd yn cael eu torri unwaith y flwyddyn ac er mai lechyd a Diogelwch yw blaenoriaeth y gwasanaeth Priffyrdd, rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth hwnnw i ddeall pwysigrwydd ymylon priffyrdd o ran bioamrywiaeth. Ni all dorri a chasglu ac mae'r prif waith torri yn dechrau ganol mis Mehefin a gall barhau tan ddiwedd mis Awst.

Rydym wedi llunio nodiadau cyfarwyddyd ar gyfer y contractwyr a chaiff eu trosglwyddo iddynt fel rhan o gyflwyniad bach bob blwyddyn.

Mae gennym gyfres o ymylon priffyrdd 'a dorrwyd yn hwyr' sydd wedi'u nodi gan y cyhoedd dros y blynnyddoedd fel rhai sy'n gyfoeth o ran rhywogaethau. Caiff y manau hyn eu gadael tan ddiwedd rowndiau contractwyr. Byddwn yn adolygu'r rhain y flwyddyn nesaf oherwydd gallai rhai o'r ymylon, yn sgil torri ymylon llawn llystyfiant yn hwyr, ddirywio o ran amrywiaeth rhywogaethau. Effeithir ar hyn hefyd gan halen wrth raeau, a llif dŵr amaethyddol a llygredd atmosfferig.

Mae'r Cyngor hefyd wedi llunio *Cynllun Strategol ar gyfer Pryfed Peillio*, sy'n cyflwyno ymrwymiad y Cyngor i gyfrannu at y camau gweithredu a gymerir ledled Cymru i fynd i'r afael â'r dirywiad mewn pryfed peillio. Nid yw hwn wedi'i gymeradwyo drwy'r broses ddemocrataidd eto.

Mae'r camau gweithredu o fewn y cynllun peillio wedi golygu, yn 2019, yr ysgrifennwyd nifer o gynlluniau rheoli ar gyfer pum ardal o dir sy'n eiddo i CSC o fewn nifer o is-adrannau Adran yr Amgylchedd a oedd yn cynnwys llai o waith torri gwair rhwng mis Ebrill a chanol Gorffennaf. Dangosodd hyn y problemau o weithio i newid trefniadau rheoli a bu'r canlyniadau'n gymysg, ond cafodd seiliau trefniadau rheoli i'r dyfodol a'r angen i sefydlu ffyrdd newydd o weithio eu sefydlu.

**Gwaith pellach sydd ei angen:** angen cyfarfod dilynol i drafod y gwaith rheoli glaswelltir gyda'r is-adrannau cyfrifol amrywiol.

**Amcanion NRAP a gyflawnwyd:**

- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel
- Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli.

**ASTUDIAETH ACHOS 5 GWEITHRED 13059.** Ar ôl datblygu cynlluniau rheoli ar gyfer safleoedd, defnyddio arwyddion dwyieithog wedi'u lamineiddio i esbonio newidiadau yn y trefniadau torri porfa a newidiadau rheoli eraill i'r cyhoedd mewn ffordd wybodus. Datblygu arwydd prototeip.



**Gwaith pellach sydd ei angen:** ceisio cyllid er mwyn cynhyrchu mwy o arwyddion.

**Amcanion NRAP a gyflawnwyd:**

- Sicrhau a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn gwreiddio bioamrywiaeth mewn gwaith gwneud penderfyniadau ar bob lefel
- Diogelu'r rhywogaethau a chynefinoedd pwysicaf a gwella'r ffordd y cânt eu rheoli.